MANIFFESTO ETHOLIAD 2008

Maniffesto Llais Gwynedd –
The Voice of Gwynedd
Manifesto

Mae'r maniffesto hwn yn seiliedig ar yr hyn y credwn sy'n ddyheadau pobl Gwynedd – dyheadau yr ymlafniwn i'w gwireddu.

Ers ei sefydlu 12 mlynedd yn ôl rheolwyd Cyngor Gwynedd gyda mwyafrif cyfforddus gan Blaid Cymru. Ar y dechrau mawr fu'r gobeithion wrth i'r blaid gydio yn awenau gwasanaethau cyhoeddus yn y gadarnle fu'n ei chefnogi ers chwarter canrif a mwy.

Wedi'r cwbl Gwynedd yw sir y 609 ; Gwynedd yw sir Penyberth, Tryweryn ac Ysgol Bryncroes; a Gwynedd yw'r sir a etholodd gyda gorfoledd dau (o dri) o aelodau cyntaf Plaid Cymru i'n cynrychioli yn San Steffan.

Ond surodd y gobeithion. Gwelwyd doriadau cyson ar wasanaethau; gwelwyd ganoli a buddsoddi adnoddau ariannol ac ymarferol ar Lannau'r Fenai a hynny ar draul trefi bach a chefn gwlad Gwynedd; gwelwyd wanychu ar reolaeth ddemocrataidd y Cyngor Sir gan ganoli grym yn nwylo aelodau Pwyllgor Gwaith (Cabinet) gan amddifadu cynghorwyr unigol o'u grym i gynrychioli eu cymunedau'n effeithiol ac effeithlon.

I goroni'r cwbl datgelwyd cynlluniau dieflig i gau dros 80 o ysgolion gwledig y sir – naill ai'n gyfan gwbl neu eu hail agor fel rhan o ysgol ffederal - a hynny'n groes i ddymuniad y cymunedau y mae'r ysgolion hynny'n eu gwasanaethu. Plaid Cymru, o bawb, yn cau ysgol wledig gan fradychu ei hegwyddorion sylfaenol a'i chefnogwyr selocaf.

Doedd dim dewis felly ond sefydlu Llais Gwynedd i herio'r fath anfadwaith. Credwn mae'r unig ffordd realistig o rwystro rhagor o ymosodiadau ar ein hawliau a'n gwasanaethau sylfaenol yw torri ar fwyafrif llethol Plaid Cymru ar y cyngor. Rhaid dileu'r grym absoliwt yma sydd wedi meithrin trahauster ac sy'n anwybyddu'n llwyr ddymuniad pobl Gwynedd ynglŷn â dyfodol eu cymunedau.

Wrth gwrs mae llawer mwy nac ysgolion yn y fantol yma. Rydym o'r farn fod polisïau presennol Cyngor Gwynedd yn bygwth holl wead ein cymunedau gwledig Cymraeg – cymunedau sydd wedi goroesi'n wyrthiol er gwaethaf anawsterau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol yr oesau. Credwn mai buddsoddiad mae'r cymunedau yma eu hangen nid toriadau. Datblygiad nid dadfeiliad. Grymuso nid tanseilio.

Credwn bod bwriadau Cyngor Gwynedd ar gyfer ysgolion gwledig yn enghraifft amlwg o lun llawer ehangach fydd yn cyffwrdd pob agwedd o fywyd gwledig y sir yn gynt yn hytrach na'n hwyrach. O ysgolion i ddarpariaeth at gyfer pobl hŷn, o ddatblygu economaidd i ganolfannau hamdden; o gartrefi cyfforddus, diogel a fforddiadwy i'n pobl i ailgylchu. Mae'r arwyddion ar y mur yn barod.

Rydym o'r farn mai'r unig lwybr sy'n ei gynnig ei hun tuag at atal y dirywiad hwn yw newid rheolaeth Cyngor Gwynedd – a hynny ar fyrder. Daw'r siawns ar Fai 1af. Peidiwn â cholli'r cyfle.

Manteisiwn ar y cyfle hwn i amlinellu beth y gellir ei ddisgwyl pe deuai llwyddiant i'n ran Llais Gwynedd yn yr etholiad:

ADDYSG

- Mae Llais Gwynedd yn rhagdybio yn erbyn cau yr un ysgol os yw safonau addysgol yn dderbyniol a bod y gymuned yn dymuno ei chadw. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y *status quo* yn opsiwn wrth ymgynghori'n agored, tryloyw a chydymdeimladol gyda chymunedau unigol ynglŷn â dyfodol eu hysgolion.

- Mae Llais Gwynedd yn credu mai ysgol yw calon cymuned ac yn hanfodol o hyfywdra economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol y gymuned honno.

- Mae Llais Gwynedd yn addunedu gwario pob ceiniog o'r grant addysg y Cynulliad Cenedlaethol ar addysg.

- Nid yw Llais Gwynedd yn derbyn dadl y Cyngor fod ysgolion trefol yn cael eu amddifadu'n ddifrifol ar draul ysgolion gwledig. Rhaid ystyried nad ysgolion yw'r unig wariant cyhoeddus sy'n ddrytach i'w gynnal yng nghefn gwlad e.e. ffyrdd, ailgylchu, cyflenwadau, cludiant cyhoeddus ayyb.

- Nid yw Llais Gwynedd o'r farn fod yr arbedion ariannol bychan a rhagwelir o gau ysgolion gwledig yn cyfiawnhau'r golled addysgol, cymdeithasol ac ieithyddol o amddifadu cymuned o'i hysgol.

- Mae Llais Gwynedd yn gwrthwynebu cyflwyno addysg ôl-16 oed mewn un canolfan drydyddol yn ardal Arfon. Credir bod dileu'r chweched dosbarth yn amddifadu ysgol uwchradd o arweiniad aeddfed disgyblion hŷn.

- Mae Llais Gwynedd yn gwrthwynebu sefydlu canolfannau addysg ôl-14 oed yng Ngwynedd. Dylid darparu'r adnoddau a defnyddio technoleg yn yr ysgolion uwchradd presennol i ateb gofynion cwricwlaidd academaidd a galwedigaethol y dyfodol.

- Mae Llais Gwynedd yn rhagdybio o blaid cynnig darpariaeth addysg arbennig cynhwysfawr yn y sir ac yn credu bod y sector yma wedi dioddef toriadau diangen gan roi cam difrifol i'r rhai sydd angen ac yn haeddu cymorth arbenigol.

- Mae Llais Gwynedd o blaid adfer Cyfarwyddwr Addysg yng Ngwynedd gyda chyfrifoldeb ganddo dros ysgolion ac addysg gydol

oes y sir. Dylai'r Cyfarwyddwr Addysg fod yn atebol i Bwyllgor Gwasanaethau Addysg gyda Chadeirydd yn cynrychioli barn ei bwyllgor yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith. Y Pwyllgor Addysg fydd yn dewis y Cadeirydd.

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

- Mae Llais Gwynedd am weld adfer y rôl gyfreithiol o Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chyfrifoldeb am reoli gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn atebol i Bwyllgor Gwasanaethu Cymdeithasol gyda Chadeirydd yn cynrychioli barn ei bwyllgor yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith. Y Pwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn dewis y Cadeirydd.

- Mae Llais Gwynedd yn rhagdybio yn erbyn newid yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl hŷn. Mae Llais Gwynedd yn credu mewn ymgynghori'n agored, tryloyw a chydymdeimladol gyda staff a deiliaid cartrefi a'u teuluoedd.

- Mae Llais Gwynedd yn rhagdybio yn erbyn anfon unigolion o Wynedd am ofal arbennig. Credwn fod hyn yn codi anawsterau cymdeithasol a diwylliannol sy'n dwysau yn hytrach na lleddfu.

DATBLYGU ECONOMAIDD

- Llais Gwynedd yw llais cefn gwlad ac yn credu mewn datblygu bob cwr o Wynedd a rhoi sylw teilwng o ofynion y gwahanol gymunedau.

- Mae Llais Gwynedd yn ymwrthod â'r egwyddor sydd ynghlwm â Cynllun Gofodol y cyngor o ganoli ffyniant economaidd hyd Lannau'r Fenai. Mae Llais Gwynedd o'r farn nad oes sail na thystiolaeth sy'n cadarnhau damcaniaeth presennol y cyngor y gellir lledaenu twf Glannau'r Fenai i rannau eraill y sir.

- Tra'n gwerthfawrogi atyniadau traddodiadol ymwelwyr i Wynedd mae Llais Gwynedd am achub ar y cyfle euraid i ddatblygu a hybu twristiaeth diwylliannol.

- Mae Llais Gwynedd o'r farn na ddylai datblygiadau twristaidd amharu â'r hyn sy'n cynnal y diwydiant ymwelwyr yng Ngwynedd ac y dylid ystyried hefyd effeithiau cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol unrhyw ddatblygiadau arfaethedig.

- Mae Llais Gwynedd yn ymwybodol o'r gwaedu parhaol o'r sir wrth i'n pobl ifanc ymadael i chwilio am waith. Bydd Llais Gwynedd yn ymroi i greu'r ystod o swyddi sy'n angenrheidiol i gadw'n pobl ifanc yn y sir ac i'w denu'n ôl i'w cynefin.

- Mae Llais Gwynedd o blaid caniatâd cynllunio i bum carafán ar bob fferm yn amodol ar reolau iechyd, mwynderau a chyfleusterau priodol.

- Mae Llais Gwynedd o blaid hybu busnesau cynhenid ac achub ar bob cyfle i brynu gwasanaethau a nwyddau o fewn y sir.

- Mae Llais Gwynedd o blaid uwchraddio Rheilffordd Arfordir y Cambrian a Rheilffordd Dyffryn Conwy er mwyn cynnig ffyniant economaidd a chludiant cyhoeddus o safon ar gyfer trigolion y trefi a phentrefi ar hyd y rheilffyrdd pwysig yma.

TAI

- Mae Llais Gwynedd yn dra ymwybodol o'r argyfwng tai sy'n wynebu trigolion Gwynedd ac yn addunedu ymateb i'r argyfwng hwnnw.

- Mae Llais Gwynedd yn argymell rhyddhau tir ar gyfer codi tai fforddiadwy ar gyfer pob leol ac ar gael i'w rhentu neu ei rhannol brynu. Anelir tuag at sicrhau 150 o dai fforddiadwy ar y gweill o fewn y flwyddyn.

- Bydd Llais Gwynedd yn caniatáu codi tai ar dir sydd tu allan i'r ffin datblygu, yn unol ag amodau, fel bo pobl leol yn gallu codi cartref ar eu tir eu hunain.

- Mae Llais Gwynedd o blaid sefydlu Ymddiriedolaethau Tai Cymunedol (Community Land Trusts) fel bo'r pobl leol yn gallu codi cartref, o dan amodau, ar dir sy'n eiddo i'r gymuned boed hynny'n elusen leol neu'n gyngor lleol.

- Mae Llais Gwynedd o'r farn y dylid mynnu caniatâd cynllunio ar newid defnydd tai a ddefnyddir o hynny ymlaen fel tai haf.

- Mae Llais Gwynedd o blaid trosglwyddo stoc dai'r cyngor, gyda chaniatâd y tenantiaid, i ddwylo cwmni hyd braich o'r cyngor neu gymdeithas gymunedol elusennol mewn partneriaeth â'r tenantiaid.

- Mae Llais Gwynedd o blaid prynu cyn dai'r cyngor tai a werthwyd i denantiaid yn ôl i'r sector gyhoeddus i'w reoli gan gwmni hyd braich o'r cyngor neu gymdeithas gymunedol elusennol

TRAFNIDIAETH, HAMDDEN A BWRDEISTREFOL

- Mae Llais Gwynedd o blaid telerau parcio rhad i drigolion i sir neu sy'n gweithio'n y sir ym meysydd parcio'r cyngor.

- Mae Llais Gwynedd yn rhagdybio yn erbyn unrhyw newid yn statws canolfannau hamdden/pyllau nofio heb ymgynghoriad agored, tryloyw a chydymdeimladol gyda chymunedau unigol ynglŷn â dyfodol y gwasanaethau hynny.

- Bydd Llais Gwynedd yn cynnig teithio amodol am ddim i ddisgyblion ysgol ar wasanaethau bysiau'r sir.

- Mae Llais Gwynedd o blaid cadw cyfleusterau cyhoeddus yn agored drwy eu rhoi yn nwylo cynghorau cymuned neu gymdeithas elusennol leol ac yna gyfrannu tuag at y costau o'u cynnal.

FFYRDD

- Mae Llais Gwynedd yn galw am roi blaenoriaeth i welliannau pellach i'r A470 ger Ganllwyd.

- Mae Llais Gwynedd yn galw am ddechrau ffordd osgoi Porthmadog a Bontnewydd/Caernarfon/Caeathro ar fyrder.

- Mae Llais Gwynedd am roi'r cyfrifoldeb am flaenoriaethu mân welliannu ffyrdd yn nwylo Pwyllgorau Ardal y Cyngor.

DIWYLLIANT

- Mae Llais Gwynedd yn gefnogol i'r diwylliant a'r iaith Gymraeg.

- Mae Llais Gwynedd yn frwd dros hybu'r iaith ar draws y sir.

- Mae Llais Gwynedd o'r farn fod angen mesurau ychwanegol i warchod y Gymraeg yn ei chadarnleoedd yng nghefn gwlad Gwynedd. Mae'r math o fesurau yn rhywbeth y mae angen consensws yn eu cylch ond bydd yr ysgolion lleol a gwasanaethau eraill y cyngor yn yr ardaloedd hynny'n ganolog wrth wireddu mesurau hyn.

AMGYLCHEDD

- Mae Llais Gwynedd o blaid cynlluniau ynni adnewyddol yn rhoi ystyriaeth cydymdeimladol i gynlluniau ynni adnewyddol.

- Bydd Llais Gwynedd yn cynorthwyo gyda sefydlu dulliau ynni adnewyddol mewn cartrefi a busnesau

- Mae Llais Gwynedd yn cefnogi pob ymdrech i ailgylchu drwy sicrhau rhagor i ganolfannau ailgylchu a sicrhau bod y cyfleusterau ar gael i'w gwneud hi'n haws i bobl ailgylchu.

- Bydd Llais Gwynedd yn cynnal gwasanaeth casgliadau sbwriel wythnosol drwy Wynedd.

GWEINYDDIAETH

- Mae Llais Gwynedd i blaid adolygiad effeithiolrwydd gweinyddol Cyngor Gwynedd.

- Nid yw Llais Gwynedd yn credu fod yn drefn bresennol o reolaeth gan Bwyllgor Gwaith gyda phwyllgorau craffu di-rym yn gynrychioladol o ddyheadau pobl Gwynedd.

- Mae Llais Gwynedd o blaid grymuso cynghorwyr unigol gan roi llais iddynt i gynrychioli eu cymunedau'n effeithiol ac effeithlon. I'r perwyl hwn bydd Llais Gwynedd yn adfer trefn bwyllgor o reoli'r cyngor gyda chadeiryddion y pwyllgorau'n aelodau amodol o'r Pwyllgor Gwaith ac yn arwain yn eu meysydd priodol.

- Bydd aelodaeth y Pwyllgor Gwaith yn adlewyrchiad o natur gwleidyddol y cyngor llawn ac yn atebol i'r cyngor llawn.

Os etholir Llais Gwynedd ar y maniffesto hwn addunedwn y byddwn yn ymroi i wireddu ein haddewidion mewn modd sy'n:

- Onest
- Cydwybodol
- Agored a Thryloyw.
- Gyda Parch at Bobl a'u Cymunedau

Maniffesto Llais Gwynedd –
The Voice of Gwynedd
Manifesto

This manifesto is based on what we believe to be the aspirations of the people of Gwynedd – aspirations we will strive to realise.

Since it was established 12 years ago Gwynedd Council has been ruled by a comfortable majority by Plaid Cymru. At the start expectations were high as the Party of Wales embarked on a programme of public service initiatives in its political stronghold that had supported the party for more than a quarter of a century.

After all Plaid Cymru was established in Gwynedd; Plaid Cymru stood for election for the first time in Gwynedd; and Gwynedd voted in two (out of three) of Plaid Cymru's first members of the Westminster Parliament.

But all those hopes were soon dashed. Cutbacks in services became the order of the day; financial and practical investments were earmarked for the Menai Strait belt at the detriment of Gwynedd's smaller towns and rural areas; democratic accountability was curtailed as all the council's power is now wielded by Cabinet thus depriving individual councillors of the authority to represent their communities in an effective manner.

To crown it all a cruel plan was hatched to close over 80 or the county's rural schools – be it as a complete closure or to be re-opened as part of a federal school – against the wishes of the communities that those schools served. Plaid Cymru, of all the political parties, closing rural schools and betraying its founding principles and its most ardent supporters.

There was little choice therefore but to establish Llais Gwynedd to challenge this atrocity. We believe the only realistic way of stop these attacks on our fundamental rights and services is to break Plaid Cymru's overwhelming hold on the Council. This absolute power, which has evoked arrogance and has totally ignored the people of Gwynedd concerning the future of their communities, must be checked.

Of course there is more that schools in the balance here. We believe that present Gwynedd Council policies threaten the whole fabric of our rural and Welsh communities – communities that have miraculously survived the passage of time in the face of economic, social and political adversity. We believe these communities deserve investments not cutbacks. Development not deprivation. Enabling not disabling.

We believe that Gwynedd Councils plans for rural schools is a clear snapshot of a wider picture that will effect every aspect of the county's rural areas sooner rather than later. From schools to provision for the elderly; from economic development to leisure centres; from safe, comfortable and affordable homes to re-cycling. The writing's already on the wall.

We believe that the only option open to us in order to stop this disintegration is to have an immediate regime change in Gwynedd Council. Our chance will come on May 1st. We shan't miss this opportunity.

Here is a breakdown of what can be expected if success comes to Llais Gwynedd – the Voice of Gwynedd at the polls:

EDUCATION

- Llais Gwynedd – the Voice of Gwynedd presumes against the closure of any school if educational standards are upheld and if it is the community's wish to retain their local school. In such circumstances the *status quo* is an option during open, transparent and sympathetic consultations with communities concerning the future of their schools.

- Llais Gwynedd believes the school to be the heart of a community and is necessary to ensure that community's economic, social and cultural viability.

- Llais Gwynedd promises to spend every penny of the National Assembly's education grant on education.

- Llais Gwynedd does not accept the Council's opinion that urban schools are being deprived because of the costs involved in safeguarding rural schools. It must be accepted that services in rural areas, schools included, are more expensive to maintain e.g. road maintenance, re-cycling, supplies, public transport etc.

- Llais Gwynedd does not agree that the small financial savings incurred through school closure justifies the educational, social and cultural loss facing communities deprived of their schools.

- Llais Gwynedd opposes the introduction of post-16 year old education in tertiary establishment in the Arfon area. It's believed that the loss of the 6th form denies high schools of the maturity offered by older pupils.

- Llais Gwynedd opposes the introduction of post-14 year old education establishments in Gwynedd. Resources to meet future academic and vocational needs should be provided in the present high schools with the aid of technological advancements.

- Llais Gwynedd presumes in favour of providing comprehensive special needs education throughout the county and believes this service has suffered unnecessary cutbacks resulting in serious deficiencies suffered by those who need and have the right to specialist support.

- Llais Gwynedd supports the restoration of a Director of Education in Gwynedd with responsibility for school and life-long education. The Director of Education should be answerable to an Education

Committee with its Chairman taking the education portfolio in the Council Cabinet. The Chairman is elected by the Committee.

SOCIAL SERVICES

- Llais Gwynedd supports the restoration of the legislative Director of Social Services with responsibility for social services in Gwynedd. The Director of Social Services should be answerable to a Social Services Committee with its Chairman taking the Social Services portfolio in the Council Cabinet. The Chairman is elected by Committee.

- Llais Gwynedd presumes against change in the provision for elderly people. Llais Gwynedd believes in open, transparent and sympathetic consultations with staff and home residents and their families.

- Llais Gwynedd presumes against out of county special needs care. We believe this creates social and cultural problems for the individuals involved that exaggerates rather than abates conditions.

ECONOMIC DEVELOPMENT

- Llais Gwynedd is the voice of rural communities that believes in developing every part of Gwynedd and giving the appropriate attention to the needs of individual communities.

- Llais Gwynedd opposes the North West Wales Spatial Development Strategy that promotes economic prosperity for the Menai Strait belt. Llais Gwynedd believes there is no evidence to support Gwynedd Council's claim of potential growth distribution to other parts of the county.

- Appreciating Gwynedd's traditional tourist attractions Llais Gwynedd will also develop the potential involved in cultural tourism.

- Llais Gwynedd believes that tourism developments should not negatively impact present tourist attractions and that any future development should be measured against their effect on Gwynedd's unique social, linguistic and cultural fabric.

- Llais Gwynedd is conscious of rural depopulation as young people leave their communities in search of work. Llais Gwynedd will apply a strategy of creating a range of employment opportunities in order to keep young people in the county and to facilitate their return.

- Llais Gwynedd supports planning consent for five caravans on every agricultural holding conditional to the relevant health, amenity and provision requirements.

- Llais Gwynedd supports local businesses and will take every opportunity to purchase goods within the county boundary.

- Llais Gwynedd supports upgrading the Cambrian and Conwy Valley railway lines in order to promote economic prosperity and good quality public transport for the residents of the towns and villages along these two important railway lines.

HOUSING

- Llais Gwynedd is especially conscious of the housing emergency facing the residents of Gwynedd and promises to react appropriately.

- Llais Gwynedd proposes allowing the building affordable housing for local people on a tenancy or part-ownership basis outside the stipulated development boundary. We aim to have 150 affordable homes in the pipeline within the first 12 months in office.

- Llais Gwynedd will consent to conditional house building outside stipulated development boundaries so as to allow local people to build on their own land.

- Llais Gwynedd supports establishing Community Land Trusts so as to allow local people to build a home on land owned by the local community be it by a charity or local authority.

- Llais Gwynedd believes newly allocated second homes should need the appropriate planning consent.

- Llais Gwynedd believes that the council's housing stock, pending the support of its tenants, be transferred to a council subsidiary company or a charitable community association in partnership with the tenants.

- Llais Gwynedd supports regaining previous council housing, but now in private ownership, back unto the public sector to be managed by a council subsidiary company or a charitable community association.

TRANSPORT, LEISURE AND MUNICIPAL

- Llais Gwynedd supports concessionary parking fees in council car parks for the county's residents or for car owners who work in the county.

- Llais Gwynedd presumes against any change to the status of leisure centres/swimming pools without open, transparent and sympathetic consultations concerning their future with individual communities.

- Llais Gwynedd will provide conditional free fares for school children on the county's bus services.

- Llais Gwynedd supports the future of public conveniences by transferring their management to community councils or a local charitable association and contributing towards their up-keep.

HIGHWAYS

- Llais Gwynedd calls for further improvements to the A470 hear Ganllwyd/

- Llais Gwynedd calls for am immediate start to the Porthmadog and the Bontnewydd/Caernarfon/Caeathro by-passes.

- Llais Gwynedd will allow Gwynedd Council's Area Committees to prioritize minor road improvements.

CULTURE

- Llais Gwynedd supports the Welsh language and culture.

- Llais Gwynedd is enthusiastic in its support for the Welsh language county-wide.

- Llais Gwynedd believes that extra measures are needed to safeguard the future of the Welsh language in its stronghold in rural Gwynedd. A consensus will be reached on the scale of measures adopted but rural schools and other council services will play a pivotal role.

ENVIRONMENT

- Llais Gwynedd supports renewable energy programmes.

- Llais Gwynedd will support renewable energy programmes in homes and businesses.

- Llais Gwynedd supports every recycling initiative by providing extra recycling centres so as to make recycling an easy option.

- Llais Gwynedd will provide a weekly refuse collection service throughout Gwynedd.

ADMINISTRATION

- Llais Gwynedd supports a review of Gwynedd Council's administrative effectiveness.

- Llais Gwynedd does not believe that the present method of government by cabinet with toothless scrutiny committees represent the aspirations of local people.

- Llais Gwynedd supports giving individual councillors power and a voice so they are able to effectively represent their constituents. To this end Llais Gwynedd will reinstate a committee system with their chairs becoming conditional Cabinet members who will take a lead in their appropriate fields of endeavour.

- Cabinet membership will reflect the council's political make-up and be answerable to a full council meeting.

If elected on this manifesto Llais Gwynedd undertakes to realise its obligations:

- Honestly
- Conscientiously
- Openly and transparently
- With respect for people and their communities